Mr. J. Howells Crewen

"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1888. [RHIF 10.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Pregeth	217
Y Tŷ Gwag	219
Y diweddar Henry Richard	220
Dos at y Morgrugyn	222
Yr Ysgol Sul yn feithrinfa i'r Eglwys	224
Gobeithion a buddiannau bechgyn	227
Dathliad yr Wythau.—1588, 1688, 1788, 1888	230
Nodynau Gwasgarog	233
Cân y bugail dychweledig	237
Manion a Hanesion	238
Marwgofion	240

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

Gelynion Gwaethaf y Ddynoliaeth wedi eu gorchfygu!

Dyfyniadau o LYTHYR IV. *yr enwog Ddr. Pan Jones a ymddangosodd yn "Tarian y Gweithiwr" a'r "Celt" am Rhag.* 9, 1886.

GELWAIS yn masnachdy Mr. George, Hirwaun, yn ddiweddar. Y mae Mr. George wedi bod yn fyfyriwr diwyd yn ysgol fawr anian, ac wedi llwyddo i ddarganfod meddyginiaeth effeithiol rhag dau o'r anhwylderau mwyaf beichus yn hanes y teulu dynol sef y **PILES** A'R **GRAVEL.**

Bu y ddau gleíyd hyn drwy yr oesoedd fel yn chwerthin am ben pob meddyginiaeth. Y mae y cyntaf yn adnabyddus er dyddiau cwymp Dagon. Bu agos i'r clefyd hwn ysgubo ymaith holl breswylwyr pump o ddinasoedd y Philistiaid mewn un dydd am iddynt gymmeryd Arch Duw o Ebenezer i Asdod. Y mae y **GRAVEL** drachefn wedi bod yn angeu i filoedd, ac nid oes ond ychydig yn cael myned drwy y byd heb deimlo i ryw raddau oddiwrtho. Dyma y clefyd fu yn angeu i Napoleon III.

Yr oeddem wedi darllen lluoedd o dystiolaethau argraffedig, ac wedi clywed gan gyfeillion personol a chydnabyddion lawer am ddaioni y Pills; a gwn am luoedd yn y wlad hon ac yn America, rhai yn Damascus, yn Rhufain, yn Beyrout, llu mawr yn Paris a thrwy Germany, yn eu cadw yn wastad wrth law, fel TARIANAU rhag ymosodiadau y clefydon rhag-grybwylledig.

Yr oeddem wedi gweled tystiolaeth yr Ynad Williams i ddilysrwydd y tystiolaethau sydd yn cael eu cyhoeddi, a llu ereill na chyhoeddwyd etto. Wedi myned i Hirwaun a chael *interview* â Mr. George, prin y buasai yn deg i mi ymadael heb gael golwg ar y tystiolaethau. Wedi darfod y cysgod-esgus oedd genyf, cyfeiriais at y Pills, ac awgrymais "y gallai fod rhai yn amheu dilysrwydd y tystiolaethau;" wrth reswm, nid oeddwn I fy hunan yn un o'r cyfryw, fel pe tae. Heb ddweyd gair, taflodd o'm blaen glamp o lyfr mawr ar ffurf *scrap album*, a gofynodd i mi edrych a barnu drosof fy hun.

Yr oedd yno lythyrau yn mhob math o law-ysgrif,—o lun traed brain i'r German Text. Llythyrau o bob gwlad,—o China a'r Iwerddon, o San Francisco a Bagillt, o New Zealand a Dolyddelen, o Brestatyn ac Awstralia, o Liverpwl a Gibraltar, o Ysgotland a Llanrwst, o Lundain a Llanbabo, o Lanandras a Solva, o Carlisle ac Eglwyswrw, o Lanelwy a Llanbedr, o Benrhyndeudraeth a Phenrhyn-Gobaith-Da, o Cairo a Cheinewydd, o Gaercystenyn a Chaerfyrddin, o Rufain, Paris, a Naples.

Y mae meddyginiaeth Mr. George o flaen y wlad er ys dros 20 mlynedd, ac y mae eu cymmeriad wedi myned *mor eang â gwareiddiad*, canys bydd ymfudwyr, cenadon, a morwyr yn eu cymmeryd gyda hwynt i bob lle. Dywedwyd i mi gan rifyddwr o fri—pe byddai dyn yn myned ar daith o gylch y ddaear a gollwng *pill* ar ben pob llathen, y byddai raid iddo fyned fwy nag unwaith o gylch y ddaear cyn cael lle i'r *Pills* y mae Mr. George wedi eu troi allan o'i *laboratory* mewn ugain mlynedd!

Y mae y Feddyginiaeth werthfawr hon i'w chael mewn tair ffurf:—

No. 1.—George's Pile and Gravel Pills (Label wen).

No. 2.—George's Gravel Pills (Label las).

No. 3.—George's Pills for the Piles (Label goch).

Ar werth drwy yr holl fyd mewn blychau 1s. 1½c. a 2s. 9c. yr un; drwy y post 1s. 3c. a 3s. yr un. ☞ Family Boxes, yn cynnwys un blychaid o No. 1, un o No. 2, ac un o'r No. 3 Pills, 2s. 9c. yr un. Drwy y post, 3s. Arbedir llawer wrth brynu y blychau mwyaf. Perchenog:—

J. E. George, M.R.P.S., Hirwain, Glam.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1888. [RHIF 10.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda"—PAUL.

DYN FEL ADDOLWR.

PREGETH GAN Y DIWEDDAR BARCH. W. THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES).

(Parhad o dud. 215.)

Nid rhyw ddarlun dychymygol yw hwn wyf yn ei dynu. Cyfaill i mi yn Lloegr, un o rai rhagorol y ddaear, ag sydd yn ddiweddar wedi cael ei alw oddiwrth ei waith at ei wobr, a adrodda yr hyn a ganlyn:—"Yr oeddwn unwaith yn adnabod gweithiwr, o fwy o ddeall a rhinwedd nâ'r cyffredin, yr hwn, am wyth mlynedd, nid aethai i na llan na chapel. Gwyddai rywbeth am deimladau crefyddol, ond gwnai ei oreu i'w diffodd, oblegyd ei fod wedi gweled llawer o ddrwg yn deilliaw o'r hyn a elwid yn ymarferiadau crefyddol yn ereill. Tynwyd ef i'r capel lle yr oeddwn I yn gweinidogaethu gan ryw ddarlithiau ag oeddwn, y pryd hwnw, yn eu traddodi. Daeth i gael ei foddio yn y gwasanaeth, ac ymunodd â'r gynnulleidfa. Yn mhen tua chwe' mis ar ol hyn dygwyddodd i mi alw yn ei dy, pan y dywedodd ei wraig wrthyf, 'O 'allwch chwi byth ddirnad fel y mae fy mhriod wedi newid. O'r blaen yr oedd yn arfer eistedd drwy'r dydd Sul wrth y tân gartref—byth yn arfer myned i dafarn, ac yr oedd mor brudd a digalon, fel nad oeddwn yn gwybod beth i'w wneyd o hono. Ambell waith iawn yr o'wn yn myned i'r cwrdd fy hun, gan nad oeddwn yn ei hystyried yn iawn i'w adael wrtho ei hun. Yr oeddwn, gan hyny, yn ofni'r Sabboth yn fwy nag un dydd arall. Yn awr y mae yn wahanol: cwyd yn foreu, a chymmer ofal mawr i weled y plant i gyd yn cael eu dodi yn barod i fyned i'r Ysgol Sul. Nid yw byth yn absenol o'r capel, a fynychaf, dysgwylia i mi fyned gydag ef, ac nid yw un amser yn hollol ddedwydd os na fyddaf fi gerllaw iddo. Mae hyn yn gwneyd iddo fwy o les nag

a dybiech. Yn lle bod dydd Sul yn ddydd i edrych yn mlaen ato gydag ofn, ac yn ol arno gyda dim pleser, mae yn awr y dydd dedwyddaf yn yr wythnos. Edrychir yn mlaen tuag ato, nid yn unig fel dydd o seibiant i'r corff, ond o wir fwynhad ac adeiladaeth.' " Mae yr hanes hwna yn siarad cyfrolau. O'r blaen yr oedd rhan o hono—y rhan oreu o natur y dyn hwna yn ddidriniaeth, ac, o ganlyniad, yn ddiffrwyth.

Eithr nid y gweithiwr a'r dyn tlawd yn unig a lesolir yn y modd hwn gan addoliad cyhoeddus. Yma ar *blatform* llydan ein cred a'n gobaith cyffredin, mae pawb yn gydradd yn ngolwg Duw, ein nefol Dad. Beth yw gwahaniaethau daearol yn ei olwg Ef, yr Hwn yw Arglwydd nefoedd a daear? Yn sicr, pan yr awn i fewn i'w byrth Ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl—pan yn dyfod o flaen yr Arglwydd, yr Hwn y mae ei drugaredd yn parhau yn dragywydd, a'i wirionedd i genedlaeth a chenedlaeth, dylai pob gwahaniaeth daearol gael ei ollwng dros gof, oblegyd yn y presenoldeb mawr hwn y mae y cyfoethog a'r tlawd yn sefyll ochr-yn-ochr, heb ddim gwahaniaeth, ond cymmaint ag a fo purdeb a sancteiddrwydd personol yn ei achosi. Yn y byd mae llawn ddigon o achosion annghydfod ac ymrafael. Hyfryd, gan hyny, yw cael un man lle y bydd pawb yn uno mewn gwasanaeth cyffredin, ac yn teimlo eu bod mewn gwirionedd yn cael eu tynu yn agos at eu gilydd gan deimlad o angenion cyffredin, gan wasg ofnau a gwendidau cyffredin—teimlo eu bod yn un yn mhob peth ag sy'n gogoneddu ac yn sirioli bywyd—un yn eu llawenydd a'u tristwch, eu treialon a'u profedigaethau—yn un yn mhob peth a berthyn i'r bywyd uwch, yr hwn ni dderfydd—yn un yn teimlo

"Holl dorf blinderau'n bywyd ni,
Cânt gâr a'u gweryd ynot Ti."

Yn awr dylai gwasanaeth o'r fath y cynnygiwn ni ato fod yn syml ac yn eglur, yn ateb i angenion ein natur gyffredln, ac yn eang neu yn *gatholig*, fel y mae holl syniadau mawrion y galon ddynol yn gatholig, yn rhydd o gaethiwed culni a chyfyngdra. Pa raid sydd i bawb feddwl yr un modd am bynciau duwinyddol o bob rhyw cyn y gallant uno yn y fath addoliad? Y syniadau *uchaf* a *chywiraf* ag sy genym am Dduw a'i Ragluniaeth, o'u cymharu â'r Gwirionedd Digymmysg, pa mor ddistadl ydynt—pa mor fyr o'r nod ydynt! Onid gwael, ynte, yw gadael i'r gwahaniaethau hyn ein hysgar oddiwrth ein gilydd pan y mae ein calonau yn llosgi am fod yn nghyd? Camsyniad mawr yw y fath beth. Dichon i mi, ar rai pynciau, ddal cywirach opiniynau nâ dyn arall, ond paham y dylwn oblegyd hyn ewyllysio ei dori allan o gymdeithas â mi? Onid yw bywydau pawb dynion da yn dangos nad yw cyfeiliornad mewn barn yn unig yn gallu cau allan Yspryd Duw o'r galon? Dichon i'r deall godi llawer pwnc am y rhai nis cytunwn; etto, mae y galon fyth yn dyheu am yr undeb a'r cydymdeimlad agosaf. Gadewch i ni, gan hyny, gofio fod modd cael cydaddoliad crefyddol gyda rhyddid barn a chred. Ac y mae cymmaint o eisieu cydnabod hyn â dim, os nid mwy ar yr adeg bresenol.

O bob cyfeiriad daw arwyddion o anfoddlonrwydd ac o gyfnewidiad gerllaw. Mae dynion yn syrthio ymaith oddiwrth yr hen gredoau, ac yn chwilio yn ddwys am rywbeth yn fwy mewn cydgordiad ag yspryd blaenfynedol yr oes. Nid myned yn llai *crefyddol* y maent. Mae yr eglwysi yn eu llyfetheirio am nas gwnaut un ddarpariaeth ar gyfer eu cynnydd. Ond yn nghalonau dynion y mae hen dân anniffoddadwy parch a defosiwn o hyd yn cynneu, oblegyd nis gall dynion fyw heb addoli yr Hollberffaith Fod, mwy nag y gallant fyw heb y cariad melus ag sy'n gwneyd cartref yn anwyl i ni, neu y serch ag sydd yn cylymu calon wrth galon. Os bydd i ni lwyddo i wneyd i ddynion deimlo y gallant addoli fel dynion rhyddion ac fel bodau rhesymol, yna, ni fydd iddynt mwyach chwennych cefnu ar allor gweddi a gwasanaeth Duw. Deon Stanley a ddywedai yn ddiweddar na wyddai ef pa ddull ac agwedd a fyddai eiddo yr Eglwys Gristionogol yn ein gwlad ni yn fuan.

[Caf gyfle etto yn fuan, os rhydd Duw fywyd ac iechyd, i'ch anerch yn mhellach ar y pwnc hwn o addoliad, a'r ffrwythau y bydd iddo eu cynnyrchu yn mywyd dyn yn y byd.]

Wrth ddiweddu, gadewch i mi annog pob un sy'n gwrando i feddwl yn ddwys ar y pwnc o addoliad cyhoeddus Duw, oblegyd, yn ddiau, y mae arnom ddyledswyddau dwysion a thrymion yn gorphwys mewn cyssylltiad ag ef. Os llwyddwn i ddwyn dylanwad siriol crefydd ar *un* cartref unig a digysur, neu wneyd *un* galon ddynol yn ysgafnach, ni fydd ein bywyd yn ofer. "Gan wybod y bydd i'r hwn a drodd bechadur o gyfeiliorni ei ffordd gadw enaid rhag angeu a chuddio lluaws o bechodau." Yn benaf oll, trwy ein hesiampl ein hunain, gallwn galonogi dynion i fod yn ddiffuant mewn meddwl, agored a gonest mewn ymadrodd, urddasol a godidog yn eu gweithredoedd, gan gofio "Yr Hwn, pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddyoddefodd, ni fygythiodd."

Y TY GWAG.

[Achlysurwyd y llinellau canlynol wrth weled ysgerbwd dynol dydd Sadwrn, Ionawr 28. Peidied neb gosod y bai ar Tennyson.]

B'le mae'r bywyd? B'le mae'r meddwl
Fywiog weithiai yma gynt?
Wedi myned, fel y cwmmwl
A wasgerir gan y gwynt;
Mae'r ffenestri, mae y ddor
Wedi eu gadael yn agored;
Mor esgeulus ac mor oer
Oeddynt y tenantiaid!

Oddifewn mae t'wyllwch du,
Ni cheir ynddo un pelydryn,
Nid oes cyffro ar ddor y ty
Gynt mor fynych ar ei golyn;
Dewch i ffwrdd, nid oes llawenydd
A gorfoledd yma 'nawr;
O'r pridd lluniwyd y ty celfydd,
I'r pridd etto daw i lawr.

Nid yw meddwl, nid yw bywyd
Yma yn trigiannu mwy,
Ond mewn dinas wen yn Ngwynfyd
Y maent hwy;
Yn y ddinas fawr bellenig,
Dinas Duw,
Brynwyd ganddynt anllygredig
Le i fyw;
O nad allai'r brodyr cu
Arno yma gyda ni! S.

Y DIWEDDAR HENRY RICHARD.

Yn marwolaeth Henry Richard, y mae ein gwlad wedi cael ei hamddifadu o un o'i meibion mwyaf dysglaer, un oedd yn wastad yn sefyll i fyny dros ei hiawnderau, ac un (yn ngwyneb llawer o anhawsderau a gwrthwynebiadau) oedd yn barod i'n hamddiffyn rhag yr ymosodiadau annheilwng a wneid ar ein cymmeriad cenedlaethol o amser i amser. Yr oedd, yn ddiamheu, wedi gwneyd mwy dros ddyrchafiad ei genedl mewn gwahanol gyfeiriadau nâ neb arall sydd yn awr yn fyw. Ac y mae'r arwyddion cyffredinol o alar a ganfyddir yn mhob cyfeiriad, yr unfrydedd sydd yn hynodi barn ein cydwladwyr o bob plaid am dano, y sylwadau ffafriol sydd wedi eu gwneyd yn ei gylch braidd ar dudalenau pob newyddiadur yn ein gwlad, yn Geidwadwyr yn ogystal ac yn Rhyddfrydwyr, yn dangos ein bod, fel cenedl, yn deimladwy o'r ddyled fawr sydd arnom iddo am ei ymdrechion diflino drosom. Ac yn awr, pan y mae wedi ein gadael, nid oes genym ond taflu ein golwg yn ol dros yr hyn a wnaeth, a cheisio efelychu ei rinweddau aml,—ei ymdrechion dros ryddid, cyfiawnder, a thangnefedd, ei ddewrder di-droi-yn ol, yn dynoethi pob trais a gormes a chaethiwed, heb ofni na gwg na sen neb ar y ddaear.

Gellir gosod prif ddygwyddiadau y blynyddau cyntaf o'i fywyd mewn ychydig linellau. Ganwyd ef yn Tregaron yn 1812. Yr oedd ei dad yn bregethwr gyda'r Methodistiaid, ac yn byw yn ystod (ac hyd y nod yn cymmeryd rhan helaeth yn y) diwygiad rhyfeddol a gymmerodd le yn niwedd y ganrif ddiweddaf a dechreu yr un bresenol, yr hwn, gan nad beth yw ein meddwl am lawer o bethau oeddynt yn cydfyned ag ef, a fu yn ddiamheu, yn foddion i ddwyn oddiamgylch adfywiad gwirioneddol yn mywyd ein cenedl. Ac y mae yn amlwg fod y cynnadleddau mawrion a gynnelid yn mhob man trwy'r wlad yn yr amser hwnw, yn nghyd a'r brwdfrydedd a gynnyrchid ganddynt, wedi gwneyd argraff braidd annileadwy ar feddwl Henry Richard, ac wedi bod yn offerynol i'w barotoi ar gyfer y gwaith mawr oedd yn ei aros ychydig ar ol hyny. Ar ol derbyn ei addysg ragbaratoawl mewn Ysgol Rammadegol oedd gerllaw, aeth i Lundain, lle y cafodd dderbyniad i Goleg Highbury; ar ol treulio yr amser gofynol yno, ymsefydlodd yn weinidog ar Eglwys yn Llundain, lle y bu yn llafurio am rai blynyddau gyda llwyddiant mawr yn canlyn ei lafur. Yn 1848, appwyntiwyd ef yn Ysgrifenydd i'r Gymdeithas Heddwch, ac yn fuan ar ol hyn (yn mhen oddeutu dwy flynedd) rhoddodd ei ofal gweinidogaethol i fyny, fel y gallai ymroddi yn fwy trwyadl i ddyledswyddau ei swydd newydd.

Y mae ei wasanaethau i ni, fel cenedl, wedi bod yn aml a lluosog. Y mae, yn ddiamheu, fod rhai o'n darllenwyr yn cofio am "Derfysgoedd 'Becca," yn y flwyddyn 1843, pryd y dinystriwyd lluaws o dollbyrth yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion. Ar yr amser hwn y daeth Henry Richard allan gyntaf fel amddiffynwr ei gydgenedl. Y mae'n wir fod llawer o bethau ffol wedi cael eu cyflawnu yn ystod y terfysgoedd hyn; y mae felly mewn cyssylltiad â phob mudiad o'r

fath; ond nid oeddynt yn hanner mor ffol ac afresymol ag y ceisid eu gosod allan yn ngwahanol newyddiaduron Lloegr; ac yr oedd yr iaith a ddefnyddid ganddynt pan yn son am unrhyw beth Cymreig, y tueddiad oedd yn ffynu yn mhlith y Saeson yn gyffredin i ddiraddio a dirmygu pob Cymro, yn ormod i deimlad gwladgarol gwrthddrych y sylwadau hyn i allu ddyoddef, a daeth allan fel dyn i amddiffyn trigolion gwlad y bryniau rhag y cyhuddiadau bryntion a ddygid yn eu herbyn gan ddynion rhagfarnllyd ac anwybodus am y pwnc yr oeddynt yn ei drin. Ac hyd y nod pe na bai Henry Richard wedi gwneyd dim arall drosom, buasai'r un weithred hon o'i eiddo yn ei wneyd yn wrthddrych teilwng o'n hedmygedd a'n parch mwyaf dilys.

Ond gwnaeth ragor nâ hyn. Y mae yn gofus etto gan rai am y ddirprwyaeth a anfonwyd i Gymru gan y Llywodraeth yn fuan ar ol hyn, i chwilio i fewn i sefyllfa addysg yn y Dywysogaeth; ac y mae yn gofus hefyd gan lawer, yn ddiau, am yr adroddiad annghywir ac unochrog a anfonwyd i fewn gan y cyfryw Ddirprwywyr; y modd y camliwiwyd ein cenedl ynddo, ac y gosodid ni allan fel dynion barbaraidd yn mhob ystyr o'r gair. Ac ni wnaeth neb fwy i ddynoethi yr adroddiad hwn nâ Henry Richard. Ond er cymmaint a wnaeth, nid yw ein gelynion wedi peidio a dwyn yr un cyhuddiadau dro ar ol tro, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael eu profi yn gyhuddiadau disail. Gwnaeth y gyfres o lythyrau a ysgrifenwyd ganddo yn 1866, y rhai a gyhoeddwyd yn y *Morning Star*, ac ar ol hyny a gasglwyd yn llyfryn bychan, lawer i oleuo meddyliau y Saeson, ac i ddileu'r argraffiadau anffafriol a gynnyrchwyd gan adroddiad y Dirprwywyr; ac y mae hyd y nod Mr. Gladstone wedi cydnabod fod y llythyrau hyn wedi ei argyhoeddi ef yn hollol o annghywirdeb y cyhuddiadau a ddygid yn ein herbyn fel cenedl.

Yr oedd y gwasanaeth hwn o'i eiddo wedi tynu sylw holl Gymru ato, a theimlid fod yr amser wedi dod pan y dylid ei anfon i'r Senedd; ac yn ystod yr etholiad cyffredinol yn 1868, dewiswyd ef yn ymgeisydd Rhyddfrydig dros Merthyr. Nis gellir yn awr ymhelaethu ar hyn. Digon yw dweyd, iddo gael ei ddychwelyd gyda mwyafrif mawr, er gwaethaf fod ei wrthwynebwyr yn ddynion o safle uchel, ac yn meddu ar ddylanwad mawr yn y lle. Y mae ei fywyd a'i ymdrechion yn y Senedd yn wybyddus bron i bawb. Nid bychan oedd y gwasanaeth a gyflawnodd i'w wlad mewn cyssylltiad â phasiad y *Ballot Act*. Yr oedd bob amser yn barod i siarad a phleidleisio dros unrhyw fater a fyddai yn tueddu i wella sefyllfa'r gweithiwr, ac i godi ei lais yn erbyn pob trais a gormes.

Ond cofir am ei enw yn fwyaf arbenig mewn cyssylltiad â'r Gymdeithas Heddwch, dros egwyddorion yr hon y llafuriodd yn ddiflino mewn amser ac allan o amser; ac y mae y mesur helaeth o lwyddiant sydd wedi canlyn ei ymdrechion yn y cyfeiriad hwn yn dangos gymmaint a ellir ei gyflawnu gan ddyn sydd yn meddu ar ewyllys gryf, penderfyniad dewr, ac yspryd a chalou ddifrifol.

Yr oedd llawer yn uwch mewn safle ac yn marn y bobl yn gyffredin, efallai, na Henry Richard; ond nid oedd yr un yn fwy pur ei amcan-

ion, yn fwy didwyll o ran ei fywyd, ac yn meddu golwg mwy clir ar wahanol bynciau nag ef. Yr oedd yn Rhyddfrydwr o'r iawn ryw, ac wedi bod yn arweinydd i'r blaid yn Nghymru er's blynyddau lawer bellach, ac yr oedd bob amser yn un y gellid ymddiried yn ei arweiniad; ac y mae yr hyn a wnaeth dros ein cenedl yn yr amser a aeth heibio, yn ein hadgofio am y rhai ag ydynt heddyw yn sefyll i fyny ac yn dyoddef dros eu cydgenedl yn yr Iwerddon. Yr oedd yn ddiweddar, mae'n wir, yn llai llafurus nag oedd wedi bod yn yr amser a aeth heibio, a hyny o herwydd henaint; ond yr oedd ei ffyddlondeb i Gymru, yn y Senedd ac allan o honi, yn un y gall llawer o'i olynwyr ei efelychu yn y dyddiau hyn. Dynion o'r fath yma sydd yn eisieu arnom yn y Senedd, a chan ddynion o'r fath hwn y mae'r amser yn cael ei brysuro, pan y bydd heddwch fel yr afon, a chyfiawnder fel tònau'r môr. Syrthied ei yspryd yn helaeth ar ereill sydd ar ei ol.

ARGUS.

DOS AT Y MORGRUGYN.

NID wyf yn amheu nad peth i ddwyn *muddle* i ben fyddai mynychu holl gyfarfodydd gwahanol gangenau y *British Assaciation*, ac yr wyf yn hollol gydymdeimlo â brawd sydd yn dywedyd wrthyf ar *bost-card* mai *muddle* iddo ef i raddau oedd clywed darlleniad y papyrau amrywiol yn Bath, ac etto, mi garaswn I fod yn ei le i glywed gair diweddaf *Science* ar y gwahanol bynciau a ddygwyd gerbron. Yn neillduol, caraswn glywed y diweddaf oedd gan Syr John Lubbock i'w ddywedyd (Medi 7) am y gwenyn, y morgrug, a'r cacwn; ac i glywed ei gyfeiriad at farwolaeth y morgrugyn oedd wedi bod yn fath *bet* anwyl ganddo oddiar 1874. Treulia Syr John oriau gyda'u gilydd i wylied symmudiadau y *pets*, ac i geisio dysgu eu harferion.

O holl greaduriaid y bydysawd, ymddengys i mi mai y morgrugyn ddaw nesaf at ddyn o ran dealldwriaeth; yr epa, efallai, o ran ei gorff. Nid wyf yn rhyw sicr iawn fod dyn bob amser yn rhagori ar y morgrugyn. O leiaf, doeth yw awgrymiad yr Hen Lyfr, "Cerdda at y morgrugyn, dysg ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth. Dos ato, a phaid ymffrostio, mae ganddo lawer gwers a wnaiff les i ti ei dysgu."

Rhy frysiog ydyw *science* weithiau i dynu casgliadau, a rhy frysiog y bu'r gwr hwnw ddywedodd "Na" i eiriau yr hen naturiaethwr Ysgrythyrol, "Y mae *efe* yn parotoi ei fwyd yr haf, ac yn casglu ei luniaeth y cynauaf." Dywedyd y peth welodd a'r peth wyddai oedd yr hen naturiaethwr, ac nid *science* (hyny yw, nid gwybodaeth), ond dychymyg oedd gan hwnw a ddywedai y gwrthwyneb. Nid yw morgrugyn ein gwlad ni yn parotoi felly, ond y mae morgrugyn gwlad Solomon.

Mae amrywiaeth mawr o forgrug, a gwahaniaethant yn fawr yn eu harferion ac yn eu gwareiddiad. Yn fwy neu lai, ceir hwy yn ymgyfaddasu at y sefyllfa a'r cyflwr y maent yn byw ynddo. Dyn yw dyn,

yn mha le bynag y mae; ond rhyfedd y gwahaniaeth rhwng yr Hottentot a'r Cymro, rhwng y Ffigïaod a'r Sais. Ceir amrywiaeth cyffelyb, ac amrywiaeth cymmaint, efallai, yn mhlith y morgrug.

Deallwn fod pob dosparth o forgrug yn byw yn gymdeithasfaoedd. Nid yw hyny, wrth gwrs, yn awgrymu nas gall fod ambell i hen *bachelor* yn eu plith; ond dyna ydyw y rheol. Mae un gymdeithas yn rhifo'n fynych o 400,000 i 500,000 o forgrug, ac os wyf yn deall yn iawn, mae y llywodraeth weithiau yn freninol, ond mor fynych a hyny yn werinol. Y gymdeithas sydd wedi cael profiad cyflawn o beth yw llywodraeth werinol, ni ellir darbwyllo hono yn rhwydd i ddygymod â llywodraeth unbenol. Adwaena morgrug yr un gymdeithas eu gilydd i gyd. Ni wyddys etto sut y mae hyny yn bod, ond yn unig y ffaith a'r efallai mai trwy arogl. Pan fyddo morgrugyn wedi bod yn absenol dri mis, fe'i derbynir yn ol heb yr un gwrthwynebiad. Adwaenir morgrugyn gan rai o'i gymdeithas ei hunan nad ydynt wedi ei weled erioed o'r blaen. O'r tu arall, os daw morgrugyn dyeithr i'r gymdeithas, fe ymosodir arno yn union, ac fe'i gyrir allan neu fe'i lleddir.

Gesyd rhai dynion fri mawr ar ogoniant milwrol. Gwneir yr un peth gan rai cymdeithasau o forgrug. Mae dosparthiad llafur yn cael ei ddeall i raddau pell gan rai cymdeithasau o honynt; a cheir rhai yn llawer mwy hoff o ryfel na'u gilydd. Yn groes i'r hyn a ddysgwyliem, y morgrug â'r penau mwyaf yw y milwyr. Dosperthir y morgrug—(1) Y Gwrywod; (2) Breninesau; (3) Gweithwyr bychain; (4) Gweithwyr mawrion; (5) Gweithwyr â phenau mawrion. Creaduriaid diwyd iawn ydynt y morgrug. Gweithiant braidd ddydd a nos, ac yn neillduol ar dywydd gwresog.

Yr ydys wedi sylwi fod morgrug yn cadw caethion, y rhai a orfodir i weithio. Nis gwn a ydyw *slave labour* yn talu ei ffordd gystal a *free labour* yn mhlith y morgrug. Mae gan y morgrug eu gelynion. Yn wir, y maent yn hoff fwyd amryw greaduriaid. Maent hefyd ar adegau yn hoff o ddyfyrwch, ac yr ydys wedi sylwi lawer tro arnynt gyda'u gwrol-gampau neu *rustic sports*! Gan yr *upper ten* neu y *number five*, dybygaf, y mae mwyaf o amser at y chwareuon hyn. Ystyrir glanweithdra yn beth pwysig yn eu plith; ac y mae'n ddyfyrus i edrych arnynt yn glanhau eu gilydd.

Mae perthynas y morgrug â llysiau yn wahanol i eiddo'r gwenyn. Cynnorthwya'r wenynen yn y ffrwythloniad o'r llysieuyn. Ond ymddengys fel pe byddai pob blodeuyn yn gosod ei hun ar ei amddiffyniad yn erbyn y morgrugyn, ymddygiad yr hwn a dybir felly ei fod yn niweidiol i'r blodau. Ceir y blodeuyn trwy ffurf ei wefus neu lyfndra ei wyneb, neu rywbeth cyffelyb, wedi ei drefnu i gadw y morgrugyn allan. Ceir gweled y morgrugyn yn esgyn y llysieuyn, ac yn ymosod ar y blodeuyn; ond ei ran, fynychaf, wrth geisio croesi gwefus y blodeuyn, yw codwm i'r llawr. Mae yn hoff iawn o'r mêl; ond nid yw materion wedi eu trefnu yn rhwydd iddo ef ei gael yn *direct* o gwpan y blodeuyn, a hyny yn debyg am y byddai ei bresenoldeb yn anffafriol i'w berffeithiad.

Dywedais fod y morgrug yn cadw caethion. Cadwant wartheg hefyd, a cheffylau, ac y maent yn ofalus iawn o honynt. Godrant eu gwartheg yn rheolaidd, a chymmer y creaduriaid bychain eu godro mor rhwydd ac esmwyth ag a wna ein gwartheg ni. Maent yn wir yn dysgwyl hyny. Hylif melus, tebyg i fêl, ydyw y defnydd a dynir allan o'r creaduriaid bychain gwyrddion hyn, y rhai a geir ar y pren rhosyn, &c.

Pan fyddo'r morgrug yn myned allan yn fyddin, maent yn fraw i bob peth y ffordd y cerddant, difant bob peth a allant.

Dywedir eu bod yn *engineers* neu beiriannwyr cywrain iawn hefyd, ac mewn cymhariaeth i'w maintioli y gallant symmud gwrthddrychau o faint pigdyrau'r Aifft. Ffurfiant heolydd, adeiladant dai, a gwnant iddynt eu hunain ystafelloedd, a chofier eu bod yn treulio eu hamser fwyaf dan y ddaear, ac yno yn y tywyllwch yn cario eu holl waith ac addysg eu rhai bychain yn y blaen. Nid oes dau rywogaeth o honynt yn gyffelyb yn eu harferion.

Mae llawer o'u harferion yn hollol ddirgelwch i ni etto. Er enghraifft, ymddangosant yn gwbl ddisylw o'u cyfeillion mewn trafferth. *Os gwelant* un o'u ceraint wedi hanner boddi, pasiant heibio fel yr offeiriad a'r Lefiad gynt, yn hollol ddisylw. Ond os bydd morgrugyn dyeithr yn ymyl, ceir gweled cynhwrf yn union, ac ymosodiad. Dywedais *os gwelant.* Mae yn bwnc dyddorol a ydyw *gweled* iddynt hwy yr hyn ydyw i ni. A ydyw *clywed* iddynt hwy yr hyn ydyw i ni? Nid oes un sain ar offeryn cerdd a wna dynu eu sylw. Tebyg fod byd ein clyw ni yn hollol y tu allan i fyd eu clyw hwy, a *vice versa.* Esgusoder y tipyn *show* hwn o ddysgeidiaeth. Mae y clywed yn dybynu ar ymdoniad *(undulation)* yr awyr—y gwahanol seiniau yn dybynu ar gyflymdra yr ymdoniadau.

Pwnc dyddorol arall, A fedrant iaith? Os medrant, tebyg nad Cymraeg na Saesoneg ydyw. Ond y mae ganddynt, yn ddiamheu, ryw foddion i drosglwyddo eu meddyliau y naill i'r llall. Os dygwydda un o honynt ar ysglyfaeth, ac os metha ei gludo i ffwrdd ei hunan, efe a ä i'w nyth, a daw yn ei ol gyda chwmni i'w gynnorthwyo. Pa mor bell y geill wneuthur ei hun yn ddealladwy i'w gyfeillion? A all efe eu danfon at yr ysglyfaeth heb fyned gyda hwy? Mae mil a mwy o gwestiynau y carem ateb iddynt yn mherthynas i'r creaduriaid bychain. A deimlant hwy ddyddordeb ynom ni, fel y mae ambell un o honom ni yn ei deimlo ynddynt hwy? Q. Q.

YR YSGOL SUL YN FEITHRINFA I'R EGLWYS.

(Papyr a ddarllenwyd gan y Parch. N. R. Williams, Merthyr, yn Nghyfarfod Chwarterol Undeb Ysgolion Merthyr ac Aberdar Medi 3, 1888, *yn Hen Dy Cwrdd Aberdar.)*

Yr wyf yn teimlo fod testyn y papyr hwn yr un mwyaf pwysig mewn perthynas i holl gymdeithasau Cristionogol. Dylai pob eglwys, os yw

yn awyddus i drosglwyddo yr egwyddorion a ystyria hi yn wir i'r oesoedd dyfodol gael yr hyn yr wyf wedi anturio ei galw yn feithrinfa neu ysgol, er mwyn i'r bobl ieuainc a'r plant gael y fantais o glywed ac yfed yr egwyddorion hyny na allant eu cael mor drwyadl drwy fynychu y gwasanaeth rheolaidd mewn lle o addoliad unwaith neu ddwy ar y Sabboth. Yr wyf wedi gwneyd y gosodiad ar ragor nag un achlysur, a pha fwyaf y meddyliaf am dano, mwyaf i gyd yr wyf yn argyhoeddedig o'i wirionedd, fod gan yr athraw gonest, didwyll, ernest, a deallus, mewn Ysgol Sul, allu i bregethu a lledaenu gwirioneddau syml crefydd —yn athrawiaethol ac ymarferol—gyda dylanwad mwy parhaol nâ'r pregethwr mwyaf hyawdl. Wrth ddweyd hyn, nid wyf am ddibrisio gwerth ein gwasanaeth ar y Sul. Ond yr hyn a ddywedaf yw, fod gan yr athraw deallus mewn Ysgol Sul, ag sydd yn cyflwyno ei hunan yn egniol i'w waith, gyfleusderau i ddylanwadu ar feddyliau yr ieuanc nad yw y pregethwr, nad pa mor hyawdl, ddim yn eu meddu. Gyda'i ddosparth o'i amgylch, ac wedi ymddyosg o bob ffurfioldeb, y mae yr athraw yn gallu egluro ei bwnc gydag eondra na pherthyn i weinidogaeth y pwlpud. Yr wyf yn awr yn arfer y rhyw wrrywaidd, ond mae yr hyn a geisiaf ei ddangos yr un mor gymhwys at y gwragedd. Yn wir, pe gallem gael yr athrawes iawn, caem weled ei bod yn fwy defnyddiol nâ'r athraw.

Yr wyf wedi awgrymu mai yr Ysgol Sul yw mammaeth y gynnulleidfa. Am foment, ystyriwn beth yw y gynnulleidfa neu yr eglwys hon. Yr wyf yn meddwl y cytunwch â mi pan y dywedaf mai cwmni yw eglwys, yn fach neu fawr mewn nifer, yn cyfarfod ac yn uno â'u gilydd gydag amcanion cyffredinol mewn golwg. Amcanion yr Eglwys Gristionogol, oddiar y safle Undodaidd, ydynt, gwella yr hiliogaeth ddynol, dysgu moesoldeb Cristionogol, ac addoliad cysson, rhesymol, a pharchus o'r un Tad Cyffredinol. Nid yw yr amcanion hyn yn hunangar, ond yn ddyngarol, ac ni fydd y gynnulleidfa ernest, Gristionogol, yn foddlon cyfyngu yr amcanion goruchel hyn i'w plith eu hanain, ond byddant yn awyddus i ychwanegu at eu nifer, ac i ledaenu eu credo onest yn mhith ereill ag sydd yn ceisio yn ddifrifol am y bywyd a'r goleuni gwirioneddol. Teimlant yn awyddus i drosglwyddo i'r sawl sydd dyfod ar eu hol fara y bywyd hwnw sydd wedi bod iddynt hwy yn ddyddanwch a gorfoledd mewn llawer awr o dristwch a phrofedigaeth.

Er gwneyd hyn, dylai pob Eglwys Gristionogol gael ei meithrinfa neu ei Hysgol Sul. Ac yn fy marn I, mae y prawf gwirioneddol o ddifrifoldeb Eglwys Gristionogol yn gorphwys, i fesur mawr, yn y brwdfrydedd a ddengys i gadw i fyny Ysgol Sul dda i feithrin yr ieuanc i gymeryd lle y rhai hyny sydd yn bresenol yn aelodau o honi, fel, pan y caffont hwy eu symmud, y bydd i'r eglwys sefyll yn gadarn, a'r gwirionedd i lwyddo, a'i drosglwyddo i lawr i genedlaethau dyfodol, ei baner yn cyhwfanu yn awelon y nefoedd, ac yn ychwanegu aelodau newyddion fel mae'r blynyddoedd yn myned heibio, a gwybodaeth, rhydd-ymofyniad, a deall yn ymledu, a hen gredoau culion a phenboeth yn marw ac yn cael eu hanneghofio.

Os yw gwaith yr Ysgol Sul, gan hyny, mor bwysig, gallwn yn hawdd ofyn sut y gall gael ei gario yn mlaen yn ein heglwysi? A ydym ni yn myned i fewn i'r gwaith yn egniol? Nid yw fy mhrofiad I yn y blynyddau diweddaf hyn yn obeithiol iawn. Yr wyf yn ofni fod diffyg chwaeth at waith yr Ysgol Sul yn ddiweddar yn mhlith ein heglwysi. Mae rhai wedi datgan eu barn fod yr angen am Ysgolion Sul wedi darfod pan mae ein hysgolion dyddiol wedi amlhau dros wyneb yr holl wlad. Ond a yw hyn yn iawn? Yn mhell o fod felly. 'Rwy'n credu yn gadarn fod mwy o eisieu gwaith yr Ysgol Sul yn awr ná chynt, os ydym ni o ddifrif gyda'n gwaith Cristionogol, ac yn awyddus i adael ein hegwyddorion i'r oesoedd dyfodol er lles dynoliaeth. Mae yr ysgolion dyddiol yn gwneyd gwaith godidog drwy yr holl wlad i barotoi ein pobl ieuainc ar gyfer brwydr bywyd; rhoddant faes llafur i'r rhai bychain anfarwol hyn na chafodd llawer o'u rhieni un fantais o hono erioed. Ond nis gall yr ysgolion dyddiol wneyd yr oll. Mae y rhan fwyaf o blant yn gorfod gadael yr ysgol yn ieuanc iawn, gyda'u meddyliau yn agored i dderbyn argraffiadau er drwg neu er da, fel y byddo eu gyrfa yn y byd. Onid oes gwaith, ynte, i Eglwys Crist wneyd yr oll a all i gael gafael yn yr ieuanc pan yn gadael yr ysgolion dyddiol, a cheisio eu dwyn i'r Ysgol Sul, i roddi iddynt, os yn bossibl, addysg uwch, mewn moesoldeb a chrefydd, nag a allasent ei gael yn unman arall, ac fel hyn i arbed llawer rhag myned ar y ffordd eang, trwy eu gwneyd yn ddinasyddion gonest, da, a charedig, ac mewn amser i ddyfod yn weithwyr difefl yn ngwinllan Iesu Grist. Yn ddiau, nid yw gwaith yr Ysgol Sul wedi ei orphen etto: ni orphenir ef byth cyhyd ag y bo drygioni yn y byd ac eneidiau ieuainc i gael eu gwaredu o bydewau pechod, a chyhyd ag y bo gwaith i'w wneyd er gogoniant Duw ac iachawdwriaeth dynoliaeth.

Cyn gadael y pwnc at eich ystyriaeth, carwn ddweyd gair neu ddau o barthed i'n hathrawon. Yma yr ymddengys i mi yr anhawsder mawr. Mae yn gymharol hawdd i weithio i fyny Ysgol Sul mor bell ag y mae a fyno à rhif. Gellir casglu plant mewn digonedd; y cynauaf yn wir sydd fawr; ond a yw y llafurwyr yn lluosog? Nid wyf fi wedi ei chael hi felly. Fy mhrofiad I yw, fod pobl ieuainc yn mynychu ein hysgolion, y rhai sydd yn dyfod yn athrawon, nid o ddewisiad, ond o wir angen athrawon. Dewisent ffurfio eu hunain yn ddosparthiadau uwch pe gallent gael athraw cymhwys a allasai, trwy ei gyfleusderau a'i fanteision amgenach, eu haddysgu. Mae yn mhob cynnulleidfa ddynion sydd wedi cael mantais addysg dda. Yn ddiddadl, y dynion hyn ddylent fod athrawon ein Hysgolion Sul. Mae cyfrifoldeb ar y dynion hyn ag y dylent ei deimlo yn ddwfn. Yma a thraw, fel mae goreu'r modd, ceir ychydig sydd yn teimlo y cyfrifoldeb hwn, ac yn cyssegru eu hamser a'u talentau i'r gwaith da o addysgu yn yr Ysgol Sul. Gresyn na fyddai genym ragor o honynt! Maent, yn ddiamheu, yn y lleiafrif yn y rhan fwyaf o'n heglwysi, a'r canlyniad yw, fod ein Hysgolion Sul yn gorfod ymladd eu ffordd goreu y medrant, tra mae gormod o'r sawl sydd wedi derbyn addysg, ac a wnelent athrawon ardderchog, yn cuddio y dalent hon yn y ddaear, ac yn edrych yn dawel

ar ymdrechion diflino yr ychydig ffyddloniaid, heb gymmaint ag estyn llaw o gymhorth yn y fath waith godidog a Christionogol.

Ond y gwir yw, nid oes gan y gwaith hwn o fod yn athraw difrifol mewn Ysgol Sul ddim llawer o gyffro yn perthyn iddo; nid yw yn dwyn enw dyn fawr i'r cyhoedd. Y Cristion tawel, ddidwrw, a diymhongar yn unig all lwyddo yn y gwaith hwn: un ei amcan yw gwneyd da i'w gyd-ddynion, ac nid ei brif amcan yw ennill cymmeradwyaeth y werin.

Yma, ynte, mae yr anhawsder mawr, sef cael athrawon da, cymhwys, a deallus, os ydym am wneyd ein hysgolion yn llwyddiannus, ac yn *channels* trwy y rhai y gallwn annog ein hysgolheigion i ddyfod yn aelodau cyssonol o'n cynnulleidfaoedd, ac yn gydweithwyr â ni yn ngwaith yr oglwys. Mae genym ddigon o'r cyfryw bersonau yn ein cynnulleidfaoedd, ond pa fodd i'w cael hwy i weithio gyda ni sydd gwestiwn i'w benderfynu. Dichon fod rhai yn cadw draw o ddiffyg ystyriaeth, neu am nad oes neb wedi gofyn iddynt. Beth bynag yw'r achos, yr wyf yn dweyd, hyd nes caffom ni athrawon cymhwys ac ernest, rhaid i'n hysgolion nychu, gan ychwanegu rhywbeth, er yn ychydig, at les dynoliaeth.

Wrth yr ychydig ffyddloniaid ag ydynt wedi gweithio am flynyddau yn yr Ysgol Sul, ac yn parhau yn ddiflin o hyd, dywedaf, Peidiwch rhoddi fyny, nad mor ddigalon y teimlwch ar brydiau, o ddiffyg cydlafurwyr da yn y gwaith gogoneddus. Yr ydych yn gwneyd eich goreu i gyflawnu gwaith mawr, a chredwch fi, er mor anobeithiol ydych ar brydiau, mae eich gwobr yn sicr o ddyfod. Mae un wobr yn sicr o ddyfod i chwi hyd y nod yn y byd hwn, sef yr ymwybodolrwydd hapus eich bod wedi gwneyd eich dyledswydd, a phan ddaw'r amser i chwi orphwys yn y bedd, mae genych lawn sicrwydd o dderbyn y groesaw a roddir i bawb sydd wedi ymdrechu llesoli dynoliaeth: "Da was, da a ffyddlon; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

GOBEITHION A BUDDIANNAU BECHGYN.

Mae bob amser wedi ymgynnyg i mi mai gwersi mwyaf bywyd yw y symlaf, y mwyaf dealladwy, a'r mwyaf cyffredinol. Gellir cyflen yr oll o fywyd i'r reol syml fod dau a dau yn bedwar. Mae y reol hono mor gymhwys bob tipyn at fywyd ag yw at *arithmetic*. Mae hanner camsyniadau ac anffodion dynion yn codi oddiar y camgymmeriad o feddwl fod un a dau yn gwneyd pedwar, neu fod dau a dau yn gwneyd pump. Yn awr, cyn sicred â bod dau a dau yn gwneyd pedwar, mae esgeulusdod a diogi yn golygu methiant, a diwydrwydd a chyflenusdra yn golygu llwyddiant. Yr ydych yn aml yn clywed rhywun yn dweyd, "Ni ches I fawr siawns erioed." Peidiwch ei credu. Mae pob un wedi cael un siawns, o leiaf, mewn bywyd. "Mae i bob un" meddai'r ddiareb, "ei ddydd," a'r un fath mae i bob bôd dynol, o leiaf, un cyfle. Mae

ffawd yn dyfod ac yn curo unwaith mewn bywyd wrth ddrws pob un o honom, a chura wrth ddrws pob un o honoch chwi: ond pan y cura, gofalwch iddi eich cael chwi gartref, oblegyd, os na fyddwch gartref, mae ganddi yr arferiad chwithig o fyned ymaith a byth i ddod yn ol.

"There is a tide in the affairs of men,
Which, taken at the flood, leads on to fortune."

A gesyd un o'n beirdd diweddar ni fynegiad i'r un drychfeddwl pan y dywed, "Mae adwy ddofn yn olwyn aflonydd amser i droed pob dyn." I bob un o honoch, fechgyn, bydd amser pan mae'r llanw'n llawn, ac adwy yn olwyn aflonydd amser, i osod eich troed ynddi, ac i gael eich codi i'r lan gan bob tro i'r olwyn. Mae cyfle sydd wedi ei esgeuluso bob amser fel gelyn yn rheng olaf y fyddin. Yr ydych i gyd wedi darllen yr hen chwedl am Tarquin a'r Sibyl. Daw Sibyl cyfleusdra atoch gyda'i naw llyfr. Daw yn eich bachgendod, a chynnygia'r llyfrau am bris rhesymol. Os gwrthodwch nhw, mae'n myn'd ymaith ac yn llosgi tri. Yna, mae'n dyfod ar adeg henach yn eich bywyd, ac yn cynnyg y chwech llyfr gweddill. Os gwrthodwch nhw, mae yn myn'd ymaith ac yn llosgi tri arall, ac mae'n dyfod ac yn cynnyg y tri sydd ar ol. Os gwrthodwch etto yn eich dyndod, mae'n myn'd ffwrdd ac yn llosgi y tri olaf, ac ni wna Sibyl fendigedig cyfleusdra i ymweled â chwi byth mwy. Pan ymwelodd Napoleon â'i hen ysgol yn Brienne, gwnaeth araeth hynod fer. Yr oll a ddywedodd oedd hyn: "Fechgyn, cofiwch, fod pob awr a wastraffwch 'nawr yn siawns i anffawd yn y dyfodol." Ac y mae yn eitha' gwir. Gellwch wneyd fyny am golled arian a phethau ereill; ond nis gellwch byth wneyd am golled amser. Nis gellwch byth ddod yn mlaen, os nad ydych yn gwneyd defnydd trwyadl o bob cyfle pan mae'n ymgynnyg i chwi. Ni rydd natur ddim am ddim. Mae holl ddynion mawrion y byd wedi cyrhaedd eu safle trwy ffyddlondeb a diwydrwydd. Edrychwch ar un o'r dynion mwyaf godidog a gynnyrchodd Lloegr erioed, Syr Walter Raleigh. Dywedid am dano gan wrthwynebydd, "Gwn, y gall weithio'n ofnadwy." Edrychwch ar Syr Isaac Newton. Dywedai, mai yr unig beth oedd yn ei wneyd ef i ragori ar ereill oedd, ei fod yn medru canolbwyntio ei sylw. Edrychwch ar yr ysgolhaig mwyaf o flaen y Diwygiad, Erasmus. Pan yn blentyn, arferai ddarllen wrth oleu'r lleuad, am nad oedd ganddo geiniog i brynu ffagod. Darfu i'r holl ddynion hyn gyrhaedd enwogrwydd trwy eu diwydrwydd. Y cynghor a garwn roi i chwi yw, "Neidiwch mor uchel ag y medroch, ac yr ydych yn sicr o gyrhaedd eich amcan."

Yr oedd unwaith yn ysgol Harrow, fachgen tlawd iawn, mab i fasnachwr bychan yn Harrow, yr hwn a flinid yn fawr gan yr edliwiadau am dlodi ei deulu; ond arferai ddweyd, "Peidiwch hidio: 'rwy'n bwriadu, cyn marw, i farchog mewn cerbyd pedwar ceffyl;" nid uchelgais ardderchog iawn. Ond, yn mhell cyn i Dr. Parr farw, yr oedd wedi dyfod yr ysgolaig mwyaf ei oes, a marchogai yn ei gerbyd pedwar ceffyl. Pan oedd Warren Hastings yn fachgen, cwynai am fod ei

deulu wedi colli meddiant o'u trefdadaeth yn Daylesford, a dywedai, "Mi a'i prynaf hi'n ol etto." Bu fyw i fod yn ddyn mawr. Prynodd yr ystad yn ol, a bu farw yn Daylesford. Oddeutu triugain mlynedd yn ol, yr oedd bachgen ifanc, o waedoliaeth Iuddewig, yn glerc mewn swyddfa cyfreithiwr; ac er difyrwch mawr i'w gwmpeini, arferai ddweyd, "'Rwy'n bwriadu dod yn Brif Weinidog Lloegr." Ac er gwaethaf gwawd, daeth yn Brif Weinidog, a'i enw oedd Benjamin Disraeli. Oddeutu pedwar ugain a deg o flynyddau yn ol, yr oedd crwtyn ifanc yn swydd Stafford wedi clywed bron yr un peth ag wyf fi yn geisio ddweyd wrthych chwi yn awr, y gallai pob bachgen oedd wedi penderfynu i fod y peth hwn neu'r peth arall, i fod felly: a dywedodd, "Os yw hyn yn wir, mynaf gael prawf o hono: 'rwy'n penderfynu dod yn Brif Weinidog Lloegr." Daeth y bachgen hwnw yn Brif Weinidog, a'i enw oedd Robert Peel. Tua hanner can' mlynedd yn ol, yr oedd bachgen salw, digwrtaith, a diolwg iawn, a'i holl gymmalau fel pe baent ma's o'u lle. Pan yn saith mlwydd oed, yr oedd heb esgidiau nac arian; pan yn ddwy ar-bymtheg, yr oedd yr gyru bâd ar y gamlas; pan yn ddwy-ar-ugain, yr oedd yn trafod siop fechan ag oedd yn aflwyddiannus iawn, ond arferai ddifyru ei gymdeithion trwy ddweyd, "Peidiwch hidio, 'rwy'n bwriadu dod yn Lywydd yr Unol Dalaethau." Ei enw oedd Abraham Lincoln. Y penderfynol sy'n ei gwneyd hi. Ar ol ei holl fethiantau, meddyliodd Lincoln am fyn'd yn gyfreithiwr. Prynodd lyfr ar y gyfraith; ac ar ol boreufwyd, aethai allan i eistedd o dan goeden, a chyda'i goesau yn uwch nâ'i ben, symmudai o gylch y pren yn y cysgod o foreu hyd nos. Dyna'r ffordd y meistrolodd efe y llyfr ar y gyfraith, ac yn y diwedd daeth yn un o Lywyddion mwyaf America.

Mae yr un yrfa yn agored i bob un o honoch chwi, fechgyn, dim ond i chwi gael yr ewyllys, a thalu'r pris, sef penderfyniad diysgog, ac amcan di-ildo. Treiwch y prawf: ac os llwyddwch, ac os na fyddaf I yn fy medd, gobeithio y gwnewch ysgrifenu ataf. Nis gwn a ddaw llawer o honoch yn ddynion mawrion; gobeithio y daw rhai o honoch, er lles eich gwlad; ond gall pob un o honoch ddod yr hyn sydd yn anfeidrol well—yn wir foneddwr, yn wir Gristion, ac yn ddyn gwirioneddol dda. Dyna'r nod a'r uchelfan y carwn yn fawr i chwi gyd eu cyrhaedd. Yr ydych i gyd yn gwybod y stori am y modd yr ysgrifenodd Syr Walter Raleigh mewn adamant ar y ffenestr:—

"Fain would I climb, but that I fear to fall;"

ac yr ysgrifenodd y Frenines Elizabeth dano:—

"If thy heart fail thee, do not climb at all."

'Rwy' am i bob un o honoch chwi esgyn mor uchel ag y medroch, ond yn eich esgyniadau, gofalwch esgyn uwchlaw y safon gyffredin, arferion poblogaidd cymdeithas. Darfu i *wit* Americanaidd unwaith, wrth gynnyg llwnc-destyn, ddweyd fod ieuenctyd ei wlad yn ei adgofio am y

tair gradd o gymhariaeth. Yn gyntaf, ceisient ddod yn mlaen; yna, ceisient gael anrhydedd; ac yn olaf, ceisient ddod yn onest. 'Rwy' I am i chwi ad-drefnu y materion hyn, ac i benderfynu, uwchlaw pobpeth, i fod yn onest; yna, os rhynga bodd i Dduw, gellwch gael anrhydedd, a dod yn mlaen. Cadwch eich diniweidrwydd, a gwnewch yr hyn sy'n iawn, oblegyd hyny a ddwg i ddyn dangnefedd yn y diwedd. F. W. F.

DATHLIAD YR WYTHAU.—1588, 1688, 1788, 1888.

Rhufain neu reswm, meddai rhywun, nid oes dim lle canol; ac etto, mewn ystyr, y mae braidd pob peth yn ein profiad ni yn ffrwyth *compromise.* Rhoi a chymmeryd yw rheol ddyogelaf cymdeithas, a gallwn feddwl, yr unig reol ymarferol. Wrth Rufain yn yr ymadrodd y meddylir ymostyngiad i awdurdod; ac wrth "reswm," meddylir hawl a rhagorfraint pob dyn byw i actio ei gydwybod ei hunan, ac nid eiddo arall. Onid oes ystyr, fodd bynag, yn yr hwn y gallwn gael y ddau? Onid ydym yn defnyddio y ddau bob dydd? Ymostyngiad, wrth gwrs, gyda rheswm, ac nid yn erbyn rheswm. Beth gwell ydym o fyned i fewn i brofiad ein hynafiaid, onid oes i ni ei ddefnyddio, ac ymfuddiannu arno? Defnyddiwn ef yn rhesymol, â'n llygaid yn agored, nid â'n llygaid yn nghau. Hawlfraint Protestaniaeth yw rhyddid barn bersonol.

Pe buasai Philip o Yspaen gyda'i *armada* wedi cyrhaedd ei amcan, mae yn amheus a fyddai i ni heddyw yr hawlfraint o farn bersonol. Pe gallai efe, buasem wedi ein gorchfygu, a buasem wedi ein gorfodi i dderbyn Llywodraeth Bayddol a chrefydd yr oesoedd tywyll. Ni wn I sut y buasai; ond gyda chynnorthwy Howard a Hawkins, a Frobisher a Drake, a'r wthwm gwynt hwnw, gwasgarwyd llongau Philip, a sicrhawyd i ni, ac i'n Brenines Elizabeth, ein rhyddid gwladol *a chrefyddol* i raddau. Pe ffordd arall y buasai, pwy all ddywedyd beth fyddai agwedd pethau heddyw yn ein gwlad ni ac yn yr Unol Dalaethau?

Mae yn amheus a gawsai Beibl y Dr. William Morgan o Lanrhaiadr-yn-Mochnant, er wedi ei gyfieithu, lonydd i fyned ar ei neges hedd ar draws ein gwlad, fel y gwnaeth yn 1588, ac wed'yn. Ac heb hwnw, beth fuasai ein cyflwr ni heddyw yn Nghymru?

Brwydr bwysig ydyw y frwydr rhwng Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth, ac o bossibl na fyddai yn dda i'r naill na'r llall o honynt gael ei ffordd ei hun yn hollol, nac yn rhy gynnar; o leiaf, nes byddo y naill wedi corffori ynddi ei hunan yr oll sydd o dda yn y llall.

Pan ddaeth 1688 i wneuthur ei hymddangosiad, yr oedd y pwnc heb etto ei benderfynu. Er fod y wlad, i bob ymddangosiad, yn fwy Protestanaidd bob blwyddyn, yr oedd holl ddylanwad y Stewartiaid Breninol yn gweithio ffordd arall, fel y gorfuwyd tori pen Charles I.,

a gyru yr ail Iago i hêl ei fara 'chaws mewn rhyw ddull arall. Wedi hyny, cafwyd ychydig chwareu teg i wir fuddugoliaeth grefyddol. Yr oedd y lefain osodwyd yn y blawd gan Luther, Erasmus, a Colet, gan More a Tyndal, a Cranmer yn casglu nerth. Cawsant hwy eu dylyn gan ffyddloniaid egniol i ddal i fyny faner rhyddid cydwybod. Nid oedd deddfau culion caethion yr ail Charles, yn nhrefn Rhagluniaeth Ddwyfol, ond yn cynnorthwyo i ddwyn oddiamgylch yr un amcan mawr; a bu troad allan y Ddwy Fil, fel y dywedir am waed y saint, yn had i ffrwythloni'r eglwys. Hwy oeddynt dadau ein Hannghydffurfiaeth. Hwy oeddynt gydwybod yr eglwys yn flaenorol, ac wrth eu troi allan, cyflawnodd yr eglwys wladol hunanladdiad moesol.

Gydag esgyniad y trydydd William, adfywiwyd gobaith, a chasglwyd nerth i'r Annghydffurfiwr; efe a ddaeth i fod yn *power* mwy yn y weriniaeth, a bob yn ychydig, brithodd fryniau a dyffrynoedd ein Cymru anwyl ag allorau y saint.

Yn 1688 y ganwyd Alexander Pope, un o brif feirdd ein gwlad, *who sang in numbers as the numbers came.* Cyfansoddai farddoniaeth sydd mewn bri heddyw pan yn 12 oed. Er yn eiddil ac yn anogyhyd o esgeiriau, fel y Dr. Watts, yr oedd o athrylith cawraidd. Er yn Babydd, ymgodai, fel y cawn y beirdd yn gwneuthur weithiau, uwchlaw swn a sawyr sect, i awyrgylch dynoliaeth gyffredinol. Meddai,

> For modes of faith let graceless zealots fight:
> His can't be wrong whose life is in the right.

Mor bert mae yn nodi allan berygl ein dynion bach!—

> A little knowledge is a dangerous thing;
> Drink deep or taste not the Pierian spring,
> For little draughts intoxicate the brain,
> And drinking largely sobers us again.

Yr oedd Pope yn brif *favourite* genyf fi yn grwt, ac nid rhwydd genyf roddi heibio dyfynu o hono; mor arddunol:

> Oh, blindness to the future! Kindly given,
> That each may fill the circle marked by Heaven;
> Who sees with equal eye as God of all,
> A hero perish or a sparrow fall,
> Atoms and systems into ruin hurled,
> And now a bubble burst and now a world.

Ac etto:

> All are but parts of one stupendous whole
> Whose body nature is, and God the soul;
> That changed through all, and yet in all the same;
> Great in the earth, as in the ethereal frame;
> Warms in the sun, refreshes in the breeze,
> Glows in the stars and blossoms on the trees,
> Lives through all life, extends through all intent,
> Spreads undivided, operates unspent;
> Breathes in our soul, informs our mortal part;
> As full, as perfect, in a hair as heart;

As full, as perfect, in vile man that mourns,
As the rapt seraph, that adores and burns:
To Him no high, no low, no great, no small
He fills, he bounds, connects and equals all.

Ac etto, mor ostyngedig:

If I am right, Thy grace impart, still in the right to stay;
If I am wrong, oh teach my heart to find that better way.

Bu farw Alexander Pope Mai 30, 1774.

Yn y flwyddyn y ganwyd Pope y bu farw John Bunyan, dyn gwahanol iawn iddo bron yn mhob ystyr. Perthynai Bunyan i un o'r sectau anmhoblogaidd y pryd hwnw, sef, sect y Bedyddwyr. O ran galwedigaeth alcanwr (*tincer*) oedd, ond o ran cydwybod Cristion, ac o ran talent, teilwng i'w restru gyda phrif lenorion ei wlad. Dygodd ei grefydd ef i drafferth fynych, a threuliodd lawer o'i amser yn y carchar. Ysgrifenodd ei *Daith y Pererin* yn y carchar, a thrwy hyny sicrhawyd i lenyddiaeth wasanaeth y bydd yn anhawdd gan lawer ei brisio. Ganwyd ef 1628.

Yr oedd Ralph Cadworth, yr hwn a anwyd 1617, ac a fu farw 1688, yn un o ddynion mwyaf dysgedig ei oes. Mewn athroniaeth feddyliol yr enwogodd ei hun yn benaf. Mae Dr. Martineau, yn ei *Types*, yn gwneuthur llawer iawn o sylw o Cadworth. Pan yn pregethu o flaen Tŷ y Cyffredin, Mawrth 31, 1647, ar adeg gyffrous, annogai ei wrandawyr "i beidio ymdrechu dros yr opiniwn hwn neu yr opiniwn acw, ond yn unig darbwyllo dynion at fywyd Crist, fel cnewullyn pob crefydd; heb yr hwn nid oedd yr holl wahanol ffurfiau o grefydd, nad pa gymmaint y boddlonent ni, ond cynnifer o wahanol freuddwydion; a'r opiniynau lluosog hyny yn nghylch crefydd, ag yr ymrysonir cymmaint am danynt ar bob tu, os na fydd hyn yn gorwedd ar y gwaelod, nid ydynt ond cynnifer o gysgodau yn ymladd yn erbyn eu gilydd." Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau pwysig a gwerthfawr. Bu ei dynghed yn debyg i eiddo llawer ereill. Cyhuddwyd ef o fod yn *heretic*, yr hyn a wnaeth niwed mawr iddo, ac a'i hanalluogodd i gyflawnu yr oll oedd yn ei fwriad. Credai na allai fod yn y profiad dynol un elfen *foesol* oddieithr fod y meddwl wedi dwyn gyda ef i chwareufa ei weithrediadau fath o safon ddirgel o gymmeradwyaeth, a hono yn cael ei rhoddi gan yr *ideal good*. Dyma'r gwreichionyn Dwyfol sydd yn moesoli bywyd ac yn ei amrywiaethu (*chequers*) gan ei oleuadau a'i gysgodau teimladol.

Yr oedd 1788 yn un dra chythryblus yn mhob cyfeiriad. Yr oedd Ffrainc yn addfedu yn gyflym at y chwyldroad mawr a gymmerodd le y flwyddyn ganlynol. Sefydlwyd Milford fel *mail packet station*. Cymmerodd y ddadl gyntaf le ar ddyddimiad y gaethfasnach. Bu farw y Tywysog Charles Edward, y Pretender, yn yr Eidal. Yn yr Eidal yr oedd llu yn ysgrifenu yn erbyn ffughoniadau y Babaeth, ac America yn addfedu ei Gwerinlywodraeth. Pennodwyd George Washington yn llywydd Ebrill 30, 1789.

Y mae 1888 heb etto gwblhau ei hystori. Darllener YR YMOFYNYDD yn fanwl ac yn ystyriol o fis i fis. Y wers yn y ffrynt heddyw yw, *Stick to your colours.* Oddiar uchelfan ein tri wyth yr ydym yn gallu bwrw golwg yn ol a gweled sut mae wythau y gorphenol yn nodfanau cymhariaeth yn llinell y blaenfynediant; sut yr ydys o bryd i bryd wedi ceisio lleihau y *friction* rhwng hawliau cymdeithas a'r hawliau personol. Problem y dyfodol etto yw, sut mae cyfleu yn oreu egwyddorion ein Cristionogaeth at les y cyffredin. Rhaid i ddeddfau ein llywod-ddysg gael eu gwneuthur yn gyfled â deddfau ein dynoliaeth; ac ni cheir llywod-ddysg ein dynoliaeth yn gyflawn hyd oni cheir rhinwedd a chydwybod yn *part and parcel* o honi, hyd oni fydd *political economy* a *Socialism* a Christionogaeth yn fwy gogyhyd a mwy cyfystyr.

T. L. R.

NODYNAU GWASGAROG.

A man in need of money—appears
Both poor and unhappy;
But give him gold, he bold will be,
And marvellously merry.—*Seren Gomer.*

THE RAINBOW.

Love benign thy sign thus sent,—we hail it!
How holy resplendent!
Attend in grace transcendent,
God we know His bow has bent.

TALIESIN AB IOLO.

Cymharer sylwadau y Dr. Pan, tud. 205, â'r ffaith nad yw y Parch. Thomas Thomas ddim wedi bod yn feirniad yn y coleg er ys llawer o flynyddau, ac fe ddeallir pa faint o ymddiried i'w roddi i'r Doctor mawr. Fe wyr ein darllenwyr, nad beth *feddylia* y Dr., fod enw priodol y golygydd ar amlen YR YMCFYNYDD.

Camsyniad mawr yw tybio fod pynciau crefyddol yn colli eu dyddordeb i ddynion. Sylwer ar y sylw y mae y ffrwgwd rhwng Mr. Gladstone a Colonel Ingersoll yn ei gael yn y newyddiaduron Seisnig. Gwawdio a gwatwar mae Ingersoll, a methu ymryddhau mae Gladstone oddiwrth lyfetheiriau y credoau. Ond y mae Mr. Gladstone, wrth gwrs, yn cario yr yspryd iawn; ac y mae Ingersoll ambell waith yn dropio

ei wawdiaith ac yn siarad synwyr fel hyn :—"Nid yw y meddylddrych o anfarwoldeb, sydd fel y môr, wedi treio a llanw yn y galon ddynol, gyda'i donau dirif o ofnau a gobeithion yn curo ar draethau a chreigydd amser a thynghed, ddim wedi ei eni o un llyfr, na chredo, na chrefydd. Fe 'i ganwyd o serch dynol, ac fe bery i dreio a llanw dan niwl a chymmylau amheuaeth a thywyllwch, cyhyd ag y bydd cariad yn cusanu gwefusau marwolaeth."

TRIADS FROM THE WELSH.

Three things with contempt have I treated through life,
A Soldier that lives upon rapine and strife,
A Miser that coffers detestable gains,
And Fashion's dull puppy—that thing without brains.

Three things for their absence I never repined,
The horse-laughing flirt of contemptible mind,
The fool that loves mischief and calls it a jest,
And slander's vile tongue that is never at rest.

Three things have I loved and would die for their sake,
Stern Virtue's keen lash that keeps Reason awake,
Bold Liberty's frown that bids Tyranny cease,
And Wisdom's wide circle that centres in Peace.

IOLO MORGANWG (*Williams's Poems, Vol. II., 181*).

PHONOGRAPH EDISON YN BATH.

Gwelais ef ar adeg y *British Association*, ac yr oedd i mi yn rhyfeddod mawr. Pum' mis yn flaenorol yr oedd y gwahanol seiniau wedi eu trysori ynddo yn yr Amerig—y canu, y llefaru, &c. Wedi ei ddwyn i'r wlad hon yr oedd wedi adrodd yr holl seiniau yn groew ac yn glir fel eu dodwyd i fewn ryw ddwy fil o weithiau, ac i bob ymddangosiad, gallai wneuthur yr un peth ddwy fil arall o weithiau, gan gadw pob llais yn amlwg ac ar wahan, fel y gellid yn rhwydd ei adwaen. Mor naturiol y mae yn awgrymu y dyfodol hwnw pan y dadglöir y dirgelion ac y dygir pob peth i'r amlwg—holl brofiadau bywyd ar glawr a cher bron. Mor ofalus y dylai ystyriaeth o hyn ein gwneuthur o'r modd yr ydym yn byw!

PWY?

BEDDARGRAFF Y CYBYDD ANGOR.

"Ddoe'r bore myfi a gefais newydd o'r wlad, farw yr hen wr, i bum gurad iddo yn swydd Geredigiawn; ag o ran mae hen Gybydd oedd,

nid allwn lai neithiwr yn lle rhoi cwsg i'm hamrantau, no phrydyddu yn y wedd ganlynol:

"Mewn bedd o'r diwedd mae'r gwr du, er aur
Ag er arian gasclu;
Gwas ffyddlon i Fammon fu,
Oedd erwin ei ddaearu!

Trengu er casclu wna'r call arianog
Ryw ennyd fel angall:
A thraddodir gwedi'r gwall
Ei loi aur i law arall.

Os rhaid yr enaid a rennir ar gam
Ar ryw gwys anghywir,
Ni thal frwynen i'r enwir,
Y braint hwn o brynu tir.

Dod gyfran i'r gwan pan gwyno, i'w ing
A'i angen a'i portho,
Na fydd fyth gybydd o'th go
Ag anhael i gynnilo."

Sept. 25, 1767.

Mae yr englynion uchod yn dygwydd mewn llythyr o eiddo y Parch. Evan Evans (Ifan Brydydd Hir), yn y *British Museum* yn Llundain.—*Volume of MS letters, No.* 15,030.

Ganwyd Evan Evans, meddai y Parch. D. Silvan Evans, B.D., Mai 20, 1731 (O.S.); bu farw yn nhy ei frawd yn Awst, 1789, a daearwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Llanfihangel Lledrod, ac ychwanega Jones yn ei *History of Wales, p.* 258, cyhoeddedig 1824, "where a rough and unhewn stone points out the remains of this eminent bard." Mae y "garreg arw" wedi diflanu er ys llawer dydd; o leiaf, fe ddywed Gwynionydd yn ei *Enwogion* fel hyn:—"Mae 78 o flynyddau wedi myned heibio er pan hunodd y dyn mawr hwn, yr hwn a wasanaethodd ei wlad gyda'r fath ffyddlondeb; ac mae Ceredigion a Chymru oll wedi gadael ei fedd heb gymmaint â charreg i ddynodi y fan, pan y mae degau o filoedd llai teilwng wedi cael cofgolofnau drudfawr!"

T. C. U.

Y BYD YN SYMMUD YN Y BLAEN.

Er ys ychydig flynyddau yn ol, byddai ceisio gan iawnffyddwr i gyhoeddi cyfarfod Undodaidd yn ei gapel yn un o'r troseddau mwyaf;

ond y mae hyn yn graddol gyfnewid. Y mae yn debyg fod un o'n cyfeillion yn Llundain—Mr. H. H. Stannus—yn ddiweddar wedi talu ymweliad â'r Ceinewydd—un o'r lleoedd, er ys ychydig amser yn ol, mwyaf cul a rhagfarnllyd yn ein herbyn; ac fel y'm hyspysir, bu rhai o'r cyfeillion perthynol i gapel yr Annybynwyr mor garedig â chyhoeddi cyfarfod Undodaidd a gynnelid gan Mr. Stannus ar y *sands*; ac nid yn unig hyn, ond gwahoddwyd ef hefyd (yn yr un capel) i uno â'r gynnulleidfa i gyfranogi o Swper yr Arglwydd. Rhagor o'r yspryd hwn a ffyno yn ein plith. Dywedir fod o ddau i dri chant o bobl yn gwrando arno yn traethu syniadau Undodaidd.

EIN CYMMANFAOEDD CYNNULLEIDFAOL.

At Olygydd Yr Ymofynydd.

Syr,—Y mae sylwadau Mr. D. Eiddil Jones yn y rhifyn diweddaf o'ch cyhoeddiad clodwiw yn deilwng o sylw pawb ag sydd yn dymuno llwyddiant y mudiad newydd sydd wedi ei gychwyn yn ddiweddar yn mhlith Undodiaid Cymru, sef y gymmanfa gerddorol. Mae yr awgrymiad i gael un rhaglen i Siroedd Morganwg ac Aberteifi yn ddoeth ar amryw o ystyriaethau, ac nid wyf yn gweled un anhawsdra i sicrhau hyn. Dewised Sir Aberteifi un rhan o'r tonau a'r emynau a Sir Forganwg y rhan arall, a detholir dwy anthem rhyngddynt. Gall ysgrifenyddion y gwahanol bwyllgorau drefnu mewn perthynas i'r *ways and means*.

Gyda golwg ar y priodoldeb o gael un arweinydd i'r holl gymmanfaoedd yr wyf yn ofni nad yw hyn yn wneuthuradwy. Er mwyn bod yn effeithiol, byddai yn angenrheidiol i'r arweinydd i gynnal *rehearsals* mewn gwahanol fanau, ac felly, byddai y cynllun yn myned yn gostfawr.

Mewn perthynas i Sir Forganwg, carwn weled undeb yn cael ei ffurfio o'r holl sir, ac nid wyf yn gweled rhwystr mawr i sicrhau hyn. Byddai Castellnedd yn lle cyfleus i gynnal y gymmanfa gyntaf, a byddai yn hawdd i'w gyrhaedd o Ferthyr, Aberdar, Gellionen, Nottais, a'r Wig—ïe, ac Abertawe a Chaerdydd hefyd. Byddai digon o nerth yma debygwn i osod anadl newydd yn nghynnulleidfa ddarfodedig Castellnedd, ac yr wyf yn dychymygu y byddai cyfarfod o'r fath yn ffrwythlawn o fendithion i Undodiaeth Morganwg.

Rhag ofn i rai Undodiaid fyned i lewyg, ymattaliaf.

Ap C.

DEDDF Y LLYWODRAETH LEOL.

Nis gallwn lai nâ chydnabod mai un o'r mesurau mwyaf pwysig a basiwyd yn ystod yr ychydig flynyddau diweddaf yw'r uchod. Y mae yn wir fod ynddo lawer o ddiffygion; ond pan ystyriom gan bwy ei

cynnygiwyd, y mae'r mesur yn un rhagorol, a bydd yn sicr o ddwyn oddiamgylch chwyldroad nid bychan yn ein gwlad. Ond dylid cadw ar gof, ac nis gellir son am hyny yn rhy aml, na fydd y mesur hwn o un lles os na chymmer y bobl fantais ar y gallu a osodir yn eu llaw ganddo. Os bydd y bobl yn ddifraw yn ei gylch, ac yn gadael i'r rhai sydd yn awr yn eu llywodraethu i gael eu dychwelyd yn aelodau ar y cynghorau sirol yn ddiwrthwynebiad, ni fydd y mesur yn werth dim; ond os dygir dynion allan gan y bobl o'u plith eu hunain fel ymgeiswyr, yna, bydd y mesur yn un o'r rhai mwyaf chwyldroadol.

PA FODD Y DYLID CARIO'R ETHOLIADAU YN Y BLAEN.

Fel y dywedodd un o'n Haelodau Seneddol mwyaf ffyddlon a galluog yn ddiweddar, dylid cario'r etholiadau yn mis Ionawr yn y blaen yn hollol ar "*party lines*." Wrth gwrs, y mae y Toriaid yn anfoddlon iawn i hyn, o herwydd gwelant na fydd un gobaith iddynt hwy gael eu dychwelyd yn y cyfryw fodd. A'r dydd o'r blaen, sylwodd un areithydd Toriaidd y dylai y fath syniad gael ei daflu i ffwrdd yn ddiseremoni, "o herwydd," meddai, "pa le bynag y gwneir hyny, yna, bydd y cyfryw gynghor yn un o'r rhai gwaethaf possibl." Ond os ydym yn ystyried fod Rhyddfrydiaeth yn well nâ Thoriaeth yn llywodraethiad ein gwlad, paham nad yw hefyd yn well yn llywodraethiad ein siroedd? Galwaf sylw at y mesur hwn yn helaethach yn y rhifyn nesaf.

ARGUS.

CAN Y BUGAIL DYCHWELEDIG.

Yn wyllt mi grwydrais I
  Draw i estronol wlad—
Meddyliais fod pob man trwy'r byd
  Yn well na thŷ fy nhad;
Er pan adewais Gymru fach
Ni fu fy nghalon fyth yn iach.

Fel alltud oeddwn gynt
  Mewn gwych ddinasoedd draw,
A'u holl bleserau ar bob pryd
  I mi estynent law;
Er mor addurnol ydynt hwy,
Hen Walia Wyllt i mi byth mwy.

Mi ddringais lawer bryn
  Er ceisio rhyw fwynhad,
Ond o fy mlaen, p'le bynag awn,
  'Roedd cerryg llwyd fy ngwlad;

O! fangre hoff i'm calon I,
Hen gartre'r bugail ydwyt ti.

Siaredais lawer tro
A'r awel ar ei thaith,
Gofynais hynt mynyddoedd gwyllt
Hen Gymru lawer gwaith;
Nid oes awelon trwy y nen
Fel iach awelon Cymru Wen.

Ni chrwydraf etto'n ffol,
'Rwy'n dweyd â'm dagrau'n lli',
Ond cymoedd, bryniau, dolydd glân
Brycheiniog mwy i mi;
Caf wylio'r defaid mud a'r wyn,
Ac yfed gwin y ffynnon fwyn.

Pan hunwyf, rho'wch i'm fedd
Wrth dawel droed y rhiw,
A boed i'r glaswellt glanwedd ddweyd
Mai beddrod bugail yw;
Mi hunaf yno mewn mwynhad
Yn mynwes glud fy anwyl wlad.

Cefncoed. CASWALLON.

Manion a Hanesion.

Gwell yw rhwbio na rhydu, ebe Esgob Cumberland.

Mae golygydd y *Christian Herald* wedi dweyd fod y "Dydd Mawr" i ddyfod yn 1895-6.

Yr wyf yn sylwi fod rhai dynion yn raddol yn dyfod i ddygymmod yn awr yn dra dirwgnach â'r ymadrodd, "Mair, mam Duw." Dywedant nad oes dim yn wrthun ynddo. Efallai gydag ymarfer y gallant hefyd ddygymod yn o gystal â'r syniad am "Anna, mamgu Duw!" P'am lai?

Dywedir fod nifer y bechgyn dan bymtheg oed sydd yn ysmocio yn cynnyddu yn aruthrol, a barn y meddygon yw y bydd i hyny esgor ar luaws o glefydau. Maent yn difa eu nerth trwy yr arferiad ffol.

Mae prynu ar goel yn achos hanner y drafferth a'r gofid ydynt yn blino y dosparth gweithiol.

Syniad cywrain sydd gan rai am yr egwyddor wirfoddol. Adroddir am rai eglwysi lle yr anfonir bygythion at yr ael odau nad ydynt yn cyfranu mor helaet eleni a llynedd.

Dywed y doethion yn Vienna fod mat o *acacia*, llysieuyn yn tyfu yn Corsica, y rhagarwyddo'r tywydd o 48 i 72 o oriau y mlaen.

Y dynion mwyaf yn ngolwg Lor Wolseley yw y milwyr. Gesyd ef Wellin ton yn uwch nâ Byron, a Bismarc y uwch nâ Heine.

Ymddengys gwleidiadaeth yn yr Unc Daleithau yn *rotten* i'r gwraidd. Ar ade yr etholiadau cyll egwyddorion moesolde eu holl ddylanwad a'u gwerth.

Yr oedd yn iechyd calon i glywed Mr Gladstone yn siarad am Mr. Henr Richard yn Eisteddfod Wrecsam. Y oedd Mr. Richard yn gorfforiad iachus Gristionogaeth ymarferol.

CRIBIN.—Ar y 9fed o'r mis diweddaf talodd Ysgol Sul Llwynrhydowen, ymwel iad â Cribin. Aethant trwy eu gwaith y

rhagorol. Yr oedd yr ysgol yn un lluosog, ac yn cael ei gwneyd i fyny, gan fwyaf, o ddynion ieuainc. Y mae'r ymweliadau yma, mae'n amlwg, yn elfen bwysig yn mysg ein hysgolion yn Sir Aberteifi, ac yn gwneyd llawer iawn o les yn ddiamheu.

TRIP I ABERYSTWYTH.—Yn mis Awst, aeth Ysgolion Sul Cribin, Llanbedr, Caeronen, Cwrtnewydd, ac Alltyblaca, am ddiwrnod i Aberystwyth. Cafwyd tywydd ffafriol neilldduol, ac yr oedd pawb yn teimlo eu bod wedi cael gwerth eu harian. Ni welwyd erioed o'r blaen gymmaint o'r hen Sosiniaid yn nhref Aberystwyth.

UNDEB YSGOLION MERTHYR AC ABERDAR.—Cynnaliwyd y cyfarfod chwarterol perthynol i'r Undeb hwn yn yr Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, nos Lun, y 3edd o Fedi. Cymmerwyd y gadair gan Mr. D. Eiddil Jones, y llywydd. Ar ol darllen a gweddio gan y Parch. T. Lloyd Jones, L'erpwl, a darllen cofnodion y cyfarfod blaenorol gan yr ysgrifenydd, galwodd y llywydd ar y Parch. N. R. Williams, Merthyr, i ddarllen ei bapyr ar "Ysgol Sul yn famaeth i'r Eglwys," a chan fod sylwedd y papyr i ymddangos yn YR YMOFYNYDD, ni fyddai ond ofer i ymhelaethu arno yma. Rhoddodd Mr. Williams foddlonrwydd cyffredinol. Siaradwyd ar ei ol gan Mr. Lewis N. Williams, y Parchn. R. J. Jones, M.A., E. W. Lloyd, a J. J. George. Yr oeddis wedi dethol amryw dônau i gael eu canu gan y gwahanol ysgolion yn y cyfarfod hwn, yr hyn a wnaed yn effeithiol iawn o dan arweiniad medrus Mr. Tom Bowen (Llew Morganwg), Cwmbach. Gan fod y cwrdd hwn ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn hanes yr Undeb, yr oedd yr hen swyddogion yn myned allan o'u swydd, pasiwyd fod yr un boneddwyr i lanw eu swyddi etto am y flwyddyn nesaf,—y llywydd, Mr. D. Eiddil Jones; y trysorydd, Mr. Henry Lloyd, Dowlais; a'r ysgrifenydd, J. Hathren Davies. Mae yr Undeb hwn mewn agwedd lewyrchus, [ac hyderwn, gyda chydweithrediad y gwahanol eglwysi, fod dyfodol dysglaer yn ei aros.

CEINEWYDD, CEREDIGION. — Mae rhai Undodiaid parchus newydd fod ar ymweliad â'r lle prydferth hwn, ac yn ystod eu harosiad maent wedi bod ar waith yn ymdrechu *lledaenu* Undodiaeth, trwy gynnal gwasanaeth yn yr awyr agored ar y Suliau canlynol: Awst 19 a 26, a Medi 2, a mawr oedd y dadleu a'r siarad ar ol pob un o honynt gan frodyr o'r gwahanol enwadau. Bu gweinidog neu ddau o'r lle mor garedig a chyhoeddi y gwasanaeth yn eu capelau, ac hefyd huriwyd Mr. Thos. Davies, *town-crier*, i fyned allan efo'i gloch ar y Sadwrnau. Y blaenor a'r areithiwr oedd Hugh Stannus, Ysw., F.R.I.B.A., o South Kensington, Llundain, a'i gynnorthwywyr oeddynt Dr. Lloyd Jones, o Lundain, a Mr. D. Lloyd Evans, Barley Mow, Llandysul. Yn bresenol ar y Suliau yr oedd Mrs. Stannus, Mrs. Dr. Lloyd Jones a'r plant, ac yn mysg y dorf yr oeddynt i'w canfod rai o "fobl mawr" y Cei a'r gymmydogaeth. Y gwasanaeth ar yr ail o Fedi oedd yr un mwyaf effeithiol, yn ol tystiolaeth personau ag sydd yn deall ansawdd dduwinyddol y lle, gan i Mr. Stannus ddewis testyn cryf, "*Exceptions to Unitarianism*," a sylfaenodd yr hyn a draethodd ar adnodau—rhaid gwneuthur hyny gerbron Trindodiaid—a goreurodd ei arawd a'r ystoriau mwyaf cyffrous a tharawiadol. Llefarwr rhwydd ydyw Mr. Stannus, ac y mae ganddo ddull ennillgar dros ben; y mae'n serchog, yn ddifalch, ac yn llawn bywyd a gweithgarwch. Y tônau a ganwyd y Sul diweddaf oeddynt *Missionary* a *Hursley*, ac arweiniwyd gan Mr. D. Lloyd Evans; a'r emynau oeddynt Rhif 176 a 184 yn llyfr bychan Henry Williamson, cyhoeddedig gan y *Christian Life Publishing Company*. Gwerthodd Master Hugh Stannus a Mr. Lloyd Evans amryw o'r llyfrau bychain hyn ar ddiwedd yr oedfa, a phe bai pres ganddynt ar y pryd, byddai llawer ereill wedi eu prynu. Mae'r *tracts* a ddosparthwyd gan Mr. Evans yr wythnos hon yn cael eu darllen yn awchus, a mawr ydyw'r ymofyn am danynt gan fechgyn a merched ieuainc deallus. Nos Fawrth, Medi 4, traddododd Mr. Stannus ddarlith odidog ar "*Applied Art*," yn Ysgol y Bwrdd. Boreu dydd Iau canlynol, ymadawodd ef a'i deulu, yn nghyd a Mrs. Dr. Lloyd Jones a'i phlant am Lundain, gan garic gyda hwynt ddymuniadau da pawb a'u hadwaenent. Yr oedd Dr. Lloyd Jones wedi ymadael yr wythnos flaenorol. Gellir dywedyd gyda sicrwydd fod lles i ddeilliaw o lafur y rhai a enwyd yma, yn neilldduol felly am eu bod yn ymddangos yn egniol dros eu hachos, ac yn awyddus i symmud i ffwrdd ragfarnau sylfaenedig ar yr hyn "mae nhw'n ddweyd" am Undodiaeth, ac nid ar yr hyn a geir allan o enau a llyfrau Undodiaid eu hunain. Derbynied rai brodyr Undodaidd o Morganwg ein diolchgarwch am eu presenoldeb yn yr oedfaon. —*Undodwr.*

Marwgofion.

Mehefin 20, yn 89 mlwydd oed, Mary Lewis, Ffynnonoer, gweddw y diweddar James Lewis. Treuliodd ei hoes hir yn ddiniwed a defnyddiol iawn. Carai ei theulu, a cherid hithau yn anwyl gan ei theulu a phawb ereill a'i hadwaenai. Treuliodd ddiwedd ei hoes yn goddef pwys y dyddiau blin, ond cafodd bob tynerwch a phobpeth a allai gofal a serch plentyn ei wneyd er esmwythau ei blinderau. Gadawodd fab a merch, ac wyrion mewn hiraeth ar ei hol. Ar ddydd ei hangladd, pregethodd y Parch. B. Phillips yn y ty, Hebryngwyd ei gweddillion marwol gan dyrfa fawr o gyfeillion a pherthynasau i fynwent Ystrad, lle ei claddwyd mewn gwir ddyogel obaith am adgyfodiad i fywyd gwell. Bendigedig yw coffadwriaeth y cyfiawn.

Gorphenaf 14, yn 17 mlwydd oed, Thomas, mab ieuengaf y diweddar Samuel a Margaret Howells, gynt o Lloyd Jack Arms, Ystrad. Nid oedd o gyfansoddiad cryf er yn blentyn. Aeth i Sir Forganwg yn ieuanc, lle bu yn gweithio nes iddo fethu gan iechyd. Wedi iddo ddyfod adref, gwnaeth ei fam bob ymdrech i'w adferu i'w iechyd, ond yn ofer. Bydded i'r fam a'r plant ereill gael y fraint o ystyried mai yr Arglwydd a roddodd, ac hefyd mai Efe a gymmerodd ymaith; a bydded goleuni yr Efengyl i'w tywys a'u harwain ar hyd ffyrdd y nef a'u cysuro yn eu galar.

Gorphenaf 18, Grace Jones, Aberaeron, gynt o'r Wigddu, yn 51 mlwydd oed. Er mor ddefnyddiol oedd yn y teulu, 'ac mor anwyl oedd ganddynt, a chan bawb o'i chydnabod, fe welodd yr Hwn sydd yn trefnu pobpeth mewn doethineb yn dda ei symmud o fyd ag mae ynddo lawer o siomedigaethau, i fyd lle na bydd gofidiau nâ thrallodion mwy. Yr oedd er yn ieuanc yn aelod yn Ciliau, a'i rhodiad yn deilwng o'i phroffes. Ar ddydd ei hangladd, gweinyddwyd yn y ty gan W. Rees, Rhydygwin, a chludwyd hi gan luaws o hen gyfeillion a chymmydogion i fynwent Llanerchaeron. Nerth a gaffo ei brawd a'i chwiorydd i ymostwng yn dawel i ewyllys y nef. Ac na fydded iddynt alaru fel rhai heb obaith.

Gorphenaf 28, yn 68 mlwydd oed, Margaret Thomas, Abernant, Rhydowen, Llandysul, gynt Pantmoch, yn yr un plwyf. Yr oedd ei hiechyd yn gwaelu er ys rhai blynyddau, a bu yn dra chystuddiol rai wythnosau cyn ei marwolaeth, fel mai ar genadwri o drugaredd y daeth angeu i roddi iddi ollyngdod. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol, sef y laf o Awst. Gadawodd dair o ferched i alaru ar ei hol, ond mewn amgylchiadau cysurus, un yn nhref, a dwy wedi priodi, sef gwraig Castellhowell, a gwraig Ffynnonau, ger Llanllwni. Traddodwyd pregeth angladdol y chwaer ymadawedig yn Pantdefaid, dydd Sul, y 19 o Awst, gan y Parch. T. T.

Awst 20, Anne David, anwyl ferch Mr. D. Davies a Mrs. Davies, Temperance Hotel, Llanbedr, yn 3 mis oed. Claddwyd y fechan y dydd Iau canlynol yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Thomas ac R. C. Jones.

Awst 20. Ar y dydd hwn taflwyd y Drenewydd yn Nottais i gryn gyffro trwy farwolaeth sydyn Mr. Abraham Williams. Yr oedd Mr. Williams, yr hwn oedd ychydig amser yn ol wedi bod yn byw yn y pentref crybwylledig, wedi bod yn treulio'r wythnos flaenorol yn nhŷ Mr. Titus Lloyd, Porthcawl, ac ar foreu'r Sul yr oedd wedi myned i'r addoliad i'r Nottais, lle y cymmerodd ran trwy ddarllen a gweddio. Wedi'r gwasanaeth, aeth gyda Mr. W. Phillips i giniaw. Wedi ciniaw, achwynai ei fod yn anhwylus, ac aeth i orwedd. Yn ystod y nos, tybiodd Mr. Phillips ei fod yn waeth, ac anfonodd am feddyg, ond yn gwbl ofer, canys bu farw yn foreu dranoeth. Yr oedd wedi bod yn dyoddef oddiwrth ddolur y galon er ys llawer dydd. Claddwyd yr Iau canlynol yn Mhenbont-ar-Ogwr. Yr oedd yr ymadawedig yn 61 mlwydd oed, ac yn barchus iawn gan bawb a'i hadwaenent.

Medi 13, yn 24 mlwydd oed, ar ol cystudd maith, John, anwyl fab Mr. Phillips, Blaentrafle. Claddwyd prydnawn y Sadwrn canlynol yn nghladdfa y teulu yn Rhydyparc. Ar yr achlysur, yn y ty, darllenodd a gweddiodd Mr. Evans, Moriah (A.), pregethodd J. Davies, Allt-yplaca, yn y capel i gynnulleidfa astud; a gorphenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parch. J. Williams. O safle ddynol, yr oedd symmudiad y brawd ieuanc rhinweddol hwn yn golled fawr i gylch eang. "Dy ewyllys Di a wneler."

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nâ'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past*."

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn hyspys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan filoedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder*. Seeing is believing."

"Your Pills astonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog:—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU :—D.H., Ciliau Aeron ; T.L., Porthcawl ; E.T., Cwmbach ; D.T., Treorci ; P.P., Blaentrafle ; E.J., Aberdar ; D.T., Ochryrhos ; W.G., Pontyberem.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU :—Pris 3c., trwy'r post, 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnelir ein cwrdd chwarterol nesaf yn y Cwmbach, Aberdar, ar y 3ydd a'r 4ydd o Hydref. Pregethwr—y Parch. R. C. Jones. Y Parch. John Davies i ddarllen papyr ar "Weddi."

Yr oedfaon :—Nos Fercher, am 7. Dydd Iau, am 11, 2.30, a 6.30.

E. W. LLOYD.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

EMYNAU O FAWL A GWEDDI.

Anfonir copi (*specimen*) rhwym yn rhydd gyda'r *post* am 2s.